Hysbysiad am Benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Bwrdd Gweithredol Dydd Mawrth, 10 Medi 2019

Rhif Eitem ar y Rhaglen	Pwnc	Penderfyniad
5	Polisi Iechyd a Diogelwch	**PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r Polisi Iechyd a Diogelwch a ddiweddarwyd.** **Rheswm dros y penderfyniad** **I fodloni gofynion y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.**
6	Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019	**PENDERFYNWYD –** **(i) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio i orfodi darpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019 a bod cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiweddaru fel y bo'n briodol.** **(ii) Bod Cyngor Dinas Caerdydd, fel yr Awdurdod Trwyddedu Sengl dros Gymru (Rhentu Doeth Cymru), yn cael yr awdurdod i weithredu unrhyw swyddogaeth o awdurdod gorfodi o ran ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, at bwrpas Deddf Rhentu Cartrefu (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) orfodi gweithgarwch a dwyn achosion troseddol yn unol ag adran 19 y Ddeddf honno.** **Rhesymau dros y penderfyniadau** **(i) Galluogi gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd yn gyflym ac yn effeithiol. Mae gan y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, sydd wedi ei leoli o fewn yr adran Cynllunio a Rheoleiddio, gyfrifoldeb dros orfodi deddfwriaeth Tai a Safonau Masnach.**

Rhif Eitem ar y Rhaglen	Pwnc	Penderfyniad
		(ii) Sicrhau bod pwerau gorfodi hefyd yn cael eu dirprwyo i Rhentu Doeth Cymru, y mae'r adran yn gweithio mewn partneriaeth â nhw, i orfodi'r ddeddfwriaeth hon.